Prosiect Gwarchodfa Biosffer Dyfi

Amodau Gorchwyl ar gyfer Grŵp Llywio Cyfnod Cyfathrebu â Deiliaid Diddordeb

Pwrpas

- Rheoli a hwyluso proses gyfathrebu â'r gymuned, er mwyn i bobl Bro Ddyfi fedru dod i benderfyniad gwybodus ynglŷn â sefydlu Gwarchodfa Biosffer fodern.
- Gyda chaniatâd y gymuned, goruchwylio paratoi cais i UNESCO
- Cadw'r Amodau Gorchwyl hyn ac aelodaeth o dan arolygaeth
- Ar ôl derbyn cymeradwyaeth UNESCO, cyflwyno'r awenau i gorff rheoli cynrychioladol y Warchodfa Biosffer

Lleoliad

Ar y dechrau, dalgylch yr Afon Ddyfi yn ôl diffiniad presennol ffiniau cynghorau cymuned fydd ffin weithiol yr Ardal Bontio (ac felly, y Warchodfa Biosffer)

Aelodaeth o'r Grŵp Llywio

- Yr Awdurdodau Lleol perthnasol (Ceredigion, Gwynedd, Powys & Pharc Cenedlaethol Eryri)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Ecodyfi
- Aelod o'r Cyngor Cymuned lleol (Cyngor Tref Machynlleth ar hyn o bryd)
- Cynrychiolydd buddiannau'r gymuned amaethyddol leol (*Farming Connect* ar hyn o bryd)
- Cynrychiolydd o fuddiannau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant (Celtica ar hyn o bryd)

Trefniadau Gwaith

Bydd y grŵp hwn yn gweithio'n ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg.

Gweithgareddau ar gyfer y Grŵp Llywio

- Ceisio sicrhau cyllid ac adnoddau ar gyfer y prosiect.
- Ystyried anghenion adnoddau penodol ar sail achos wrth achos
- Rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid
- Amlygu ymarfer da mewn cyfranogiad deiliaid diddordeb a'r gymuned
- Apwyntio a goruchwylio corff cyfrifol addas i reoli arian, staff a chontractwyr
- Penderfynu pa fath o staff a/neu gontractwyr y dylai'r corff cyfrifol eu cyflogi

- Pe byddai deiliaid diddordeb ac UNESCO yn caniatáu ehangu Gwarchodfa Biosffer Dyfi, galw ar gorff neu beirianwaith addas i weithredu cynllun rheoli Gwarchodfa Biosffer Dyfi, yna cyflwyno'r awenau i'r corff hwnnw a dirwyn i ben
- Goruchwylio a/neu ymgymryd â'r gweithgareddau eglurhaol canlynol:

Gweithgareddau Prosiect

- Ehangu a chwblhau ymarferiad adnabod deiliaid diddordeb cyn-brosiect cychwynnol
- Adnabod a chytuno ar grwpiau deiliaid diddordeb daearyddol a sector allweddol
- Paratoi cynlluniau cyfathrebu â deiliaid diddordeb ar gyfer deiliaid diddordeb allweddol
- Paratoi deunydd ategol ar gyfer cynlluniau cyfathrebu â deiliaid diddordeb fel bo'n addas; arddangosfeydd, taflenni, cyflwyniadau *power point,* cyflwyniadau clyweled a deunyddiau ategol eraill e.e. modelau a mapiau
- Cyfathrebu â deiliaid diddordeb allweddol yn ôl y cynlluniau
- Canfod gobeithion, ofnau a chynigion deiliaid diddordeb
- Penderfynu ar lefel caniatâd gwybodus i ymestyn Gwarchodfa Biosffer Dyfi
- Pe byddai'r ymateb interim deiliaid diddordeb yn dangos bod caniatâd yn debygol, adnabod a datrys unrhyw bryderon ar ran y deiliaid diddordeb fel rhan o waith paratoi'r cais i UNESCO
- Pe byddai ehangiad yn addas, paratoi a chyflwyno cais dilys i UNESCO
- Darparu adborth cyson i ddeiliaid diddordeb allweddol
- Cysylltu â'r wasg a'r cyfryngau fel bo'r angen
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd fel bo'r angen i ddod â deiliaid diddordeb ac arbenigwyr o'r tu allan at ei gilydd, a chynorthwyo deiliaid diddordeb lleol i ddeall manteision ac anghenion Gwarchodfa Biosffer ym Mro Ddyfi
- Pe byddai ehangiad yn ymddangos yn anaddas, adnabod a sefydlu prosiectau a rhaglenni partneriaeth fyddai'n medru adeiladu ar unrhyw ewyllys da a gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses o gyfathrebu â deiliaid diddordeb